

Rhys y Tedi Bêr yn cael anesthetig

Stori i blant iau am gael anesthetig



Trusted
Information
Creator



Patient Information Forum

Gweler yr awgrymiadau ar gyfer rhieni ar y dudalen gefn

Rhys y Tedi Bêr yn cael anesthetig



Helo, Rhys ydw i

Yr wythnos diwethaf cefais anesthetig yn yr ysbyty.

Anesthetig yw pan fydd meddyg yn rhoi meddyginiaeth i ti i wneud yn siŵr nad wyt ti'n teimlo, yn clywed nac yn gweld unrhyw beth wrth gael prawf neu lawdriniaeth. Mae ychydig fel cwsg dwfn iawn.

Mae'r meddyg yn rhoi'r anesthetig i ti tra bydd ei angen arna ti a phan fydd yn stopio'r anesthetig byddi di'n deffro/dihuno.


Beth am i mi ddweud wrthyti ti am fy mhrofiad i?

Fedri di fy helpu i ddod o hyd i Zoe y sebra, fy hoff degan, ar bob tudalen?



Paratoi

Mae'n well mynd â rhai pethau gyda ti i'r ysbyty. Nes i bacio pyjamas, fy mrws dannedd, llyfr a fy hoff degan.



Dim bwyta

Mae'n rhaid cael bol gwag pan fyddi di'n cael anesthetig, felly doeddwn i ddim yn gallu cael unrhyw beth i'w fwyta. Cefais ddiod o ddŵr fel na fyddwn i'n teimlo'n rhy sychedig.

Rhys y Tedi Bêr yn cael anesthetig



Cyfarfod y nyrs

Yn yr ysbyty, cefais fy
mhwyso ar y glorian
gan **nyrs** fel y byddai'r
meddygon yn gwybod faint
o feddyginiaeth i'w rhoi i mi
yn nes ymlaen.

Mesurodd y nyrs fy
nhymeredd a rhoi
band enw i mi ar gyfer
fy arddwrn fel bod pawb
yn gwybod mai **Rhys**
y **Tedi Bêr** oeddwn i.



Rhys y Tedi Bêr yn cael anesthetig

Gwahanol fathau o anesthetig

Nes i gyfarfod yr **anesthetydd**. Dyna'r meddyg oedd yn gofalu amdana i yn ystod fy anesthetig. Mae'n bosibl dechrau anesthetig â thiwb bach yn dy law neu â masg. Cawson ni sgwrs am y peth gorau i mi.

Mi fedri di gael hufen ar dy ddwylo i rwystro'r tiwb bach rhag bod yn rhy boenus. Mae'r feddyginiaeth anesthetig yn mynd i mewn i'r tiwb bach ac yn gweithio'n gyflym iawn.





Mae arogl fel pinnau ffelt ar y masg ac mae'n cymryd ychydig mwy o amser i weithio. Mae dal angen tiwb bach yn dy law ar ôl y masg rhag ofn y bydd angen mwy o feddyginiaeth arna ti yn nes ymlaen, ond dwyt ti ddim yn teimlo unrhyw beth ar ôl y masg.



Rhys y Tedi Bêr yn cael anesthetig



Bron yn amser y llawdriniaeth

Roedd gen i ychydig o amser i chwarae cyn fy llawdriniaeth. Gofynnodd y nyrs i mi wisgo gŵn ysbyty. Roedd rhai plant yn gwisgo pyjamas yn lle.

Efallai y byddi di'n cael meddyginiaeth ar y ward. Gallai hyn fod i dy rwystro di rhag teimlo poen ar ôl y llawdriniaeth neu i dy helpu di i deimlo'n gysglyd cyn hynny.




Rhys y Tedi Bêr yn cael anesthetig



Yr ystafell anesthetig

Roedd y peiriannau - y **monitorau** - yn yr ystafell anesthetig yn helpu i ofalu amdana i trwy'r amser. Roedd un o fy rhieni'n cael dod gyda mi i'r ystafell.

Yna pan oeddwn i'n
cysgu, roedd fy rhieni'n
disgwyl amdana i.
Roeddwn i'n gwybod
nad oedden nhw'n bell i
ffwrdd.



Fy llawdriniaeth

Dydwn i ddim y cofio unrhyw beth am fy llawdriniaeth, ond arhosodd yr anesthetidd gyda mi trwy'r amser. Roedd yn gofalu amdana i ac yn rhoi'r anesthetig i mi.

Rhys y Tedi Bêr yn cael anesthetig




Yr ystafell wella

Pan ddaeth fy llawdriniaeth i ben, diffoddodd yr anesthetydd y feddyginiaeth anesthetig er mwyn i mi allu deffro/dihuno. Roedd nyrs yn gofalu amdana i yn yr ystafell wella nes bod fy rhieni'n cael bod gyda mi.

Roedd gen i dipyn bach o boen ar y cychwyn. Rhoddodd y nyrs ychydig o feddyginiaeth i mi ar unwaith, ac yn fuan roeddwn i'n teimlo'n well.



Rhys y Tedi Bêr yn cael anesthetig




Eisiau bwyd

Pan ddechreuais i deimlo fy mod i eisiau bwyd eto, gadawodd y nyrs i mi gael rhywbeth i'w fwyta a'i yfed.

Roedd hynny'n teimlo'n well.

Aros yn yr ysbyty

Roedd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty am un noson.
Roedd un o fy rhieni'n cael aros gyda mi.



Rhys y Tedi Bêr yn cael anesthetig



Amser mynd adref

Roedd pawb yn yr ysbyty yn garedig iawn, ond roeddwn i'n falch pan ddaeth yr amser i fynd adref.

Hoffet ti liwio'r llun yma ohono i?

Hwyl fawr!



Rhys y Tedi Bêr yn cael anesthetig

Pwy yw pwy a beth yw beth




Anesthetydd

Y meddyg sy'n rhoi'r feddyginiaeth anesthetig i ti ac yna'n gofalu amdana ti nes ei bod yn amser deffro/dihuno eto.

Nyrsys

Pobl sy'n gofalu amdana ti pan fyddi di'n cael llawdriniaeth.




Arbenigwr chwarae

Rhywun yn yr ysbyty sy'n dy helpu i chwarae a deall beth sy'n digwydd i ti. Nid oes gan bob ysbyty arbenigwyr chwarae.

Ymarferwyr Adran Lawdriniaeth (ODPs) a nyrsys theatr

Pobl sy'n helpu'r anesthetydd i ofalu amdana ti pan fyddi di'n cael dy anesthetig.







Ystafell lawdriniaeth

Yr ystafell mewn ysbyty lle mae llawdriniaethau'n digwydd. Mae popeth yn lân iawn ac mae'r bobl sy'n gweithio yno yn gwisgo dillad tebyg i byjamas a hetiau i gadw eu gwallt yn daclus.

Monitor

Peiriant y mae'r anesthetydd y ei ddefnyddio i gadw llygad arna ti pan fyddi di'n cael dy anesthetig. Mae'n defnyddio sticeri ar dy frest a phleg ar dy fys i weld pa mor gyflym mae dy galon di'n curo a pha mor dda rwyf ti'n anadlu.



Ystafell wella neu Uned Gofal Ôl-Anesthetig (PACU)

Yr ystafell ble mae plant yn deffro/dihuno ar ôl cael anesthetig.

Rydym ni'n ceisio sicrhau bod yr wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ac yn gyfoes, ond ni allem warantu hynny. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth gyffredinol hon ateb pob cwestiwn sydd gennych, na delio â phopeth sydd o bwys i chi. Dylech drafod eich penderfyniadau ac unrhyw amheuaon sydd gennych chi gyda'ch tîm meddygol, gan ddefnyddio'r daflen hon fel canllaw. Ni ddylid ystyried y daflen hon, ar ei phen ei hun, yn gyngor. Ni ellir defnyddio'r daflen hon at unrhyw bwrpas masnachol nac unrhyw bwrpas busnes. I weld yr ymwadiad llawn, cliciwch [yma](https://www.rcoa.ac.uk/childrensinfo).

Mae pob cyfieithiad yn cael ei darparu gan gymuned cyfieithwyr Translators Without Borders. Mae ansawdd y cyfieithiadau yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau bod y cyfieithiadau mor gywir ag sy'n bosib, ond mae yna risg o anghywirdebau a chamddehongli peth gwybodaeth.

Rhys y Tedi Bêr yn cael anesthetig Sut i ddefnyddio'r daflen hon

Gwybodaeth i rieni



Rydym wedi dylunio'r daflen hon i chi ei darllen gyda'ch plentyn a'i helpu i baratoi ar gyfer ei anesthetig. Bydd yn cyflwyno rhai o'r bobl y bydd efallai'n eu cyfarfod a rhai o'r pethau a allai ddigwydd. Gallwch newid y person neu'r bobl yn y lluniau yn ôl pwy fydd yn mynd i'r ysbyty gyda'ch plentyn gan y bydd hyn yn amrywio o deulu i deulu. Eglurwch wrth eich plentyn pam eich bod chi'n darllen y stori hon. Mae'n bwysig darganfod beth mae'r stori yn ei olygu iddo a gweld a oes ganddo unrhyw gwestiynau.

Gall fod o gymorth i ganiatáu i'ch plentyn chwarae'r stori a delio ag unrhyw bryderon sydd ganddo gan ddefnyddio tegan cyfarwydd. Efallai y bydd rhai plant yn dewis tynnu llun neu beintio i fynegi eu teimladau.

Os yw eich plentyn dros dair oed, rydym yn awgrymu eich bod yn ei baratoi yn ystod yr wythnos cyn ei anesthetig. Ar gyfer plant dan dair, rydym yn awgrymu eich bod yn eu paratoi ar y diwrnod cyn dod i'r ysbyty. Fodd bynnag, cofiwch gymryd dealltwriaeth eich plentyn eich hun i ystyriaeth.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r daflen hon. Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau, e-bostiwch:

patientinformation@rcoa.ac.uk

**Royal College of Anaesthetists
(Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)**
Churchill House
35 Red Lion Square
London WC1R 4SG
020 7092 1500

rcoa.ac.uk



Pedwerydd Argraffiad, Ebrill 2023

Bydd y daflen hon yn cael ei hadolygu o fewn tair blynedd o ddyddiad ei chyhoeddi.

© 2023 Royal College of Anaesthetists and Association of Paediatric Anaesthetists of Great Britain and Ireland (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion a Chymdeithas Anesthetyddion Pediatreg Prydain Fawr ac Iwerddon)

Caniateir copïo'r daflen hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion. Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r daflen hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.

Darluniau gan Amanda Lillywhite